# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 13 Rhagfyr 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-gadeirydd) a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen ar gais y Pwyllgor.
Roedd y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol dros Dai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yn bresennol ar gyfer eitem rhif 6 ar gais y Pwyllgor.

Aelodau Cyfetholedig – David Lloyd a Neil Roberts

**Arsylwyr –** Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Cynghorydd Tony Thomas, Cynghorydd Emrys Wynne a'r Cynghorydd Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Swyddog Strategaeth a Datblygu (GM), Arweinydd Addysg Dechrau'n Deg (NE), Rheolwr Perfformiad a Busnes (JM), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Swyddog Cynllunio – Graddfa Gyrfa (AT), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

## PWYNT SYLW

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Williams, cadeiriodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Graham Timms y cyfarfod hwn.

Yn eitem 7 yr Agenda – Rhaglen Waith Craffu – roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Williams yn bresennol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rachel Flynn and Cheryl Williams.

Cafwyd ymddiheuriad hefyd gan yr Aelod Cyfetholedig Kathleen Jones.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Tina Jones gysylltiad personol a allai fod yn niweidiol yn eitem 5 ar y rhaglen - Addysg Gynnar a Chomisiynu Gofal Plant Dechrau'n Deg gan ei bod yn berchennog meithrinfa gofal plant ac yn ymddiriedolwr Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn eitem 5 - Addysg Gynnar a Chomisiynu Gofal Plant Dechrau'n Deg oherwydd bod ei blentyn yn mynychu darpariaeth mewn ysgol yn Sir Ddinbych.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2018 a 25 Hydref 2018.

11 Hydref 2018 -

**Materion yn Codi -** Tudalen 12, Eitem 3 Adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â darpariaeth safle Sipsiwn a Theithwyr – Cadarnhaodd y Cynghorydd Timms ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Cabinet i roi ger eu bron benderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a wnaed yn eu cyfarfod ar 11 Hydref.

25 Hydref 2018 -

**Cywirdeb –** Tudalen 15 a thudalen 17, Rhif Eitem. 5 cynnig dyluniad gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd – awgrymodd aelod derminoleg arall yn y Gymraeg am nifer o'r termau a ddefnyddiwyd yn fersiwn Cymraeg y cofnodion.

**Materion yn Codi -** Tudalen 19, Eitem 5 - Dyluniad arfaethedig y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd – cyfeiriodd y Cydlynydd Craffu'r aelodau at yr adroddiad gwybodaeth ar gyfer adborth a gafwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd.
Tudalen 22 - Eitem Rhif 6 – Adroddiad ar Gynnydd Twristiaeth – cafodd yr aelodau ystadegau yn yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar nifer yr ymwelwyr â Chanolfannau Croeso'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Hydref a 25 Hydref 2018 fel cofnod cywir.*

Gadawodd y Cynghorydd Tina Jones y cyfarfod cyn i'r drafodaeth ar yr eitem nesaf o fusnes gychwyn.

## 5 COMISIYNU GOFAL PLANT ADDYSG GYNNAR A DECHRAU'N DEG

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu a Strategaeth yr adroddiad (a rannwyd eisoes) a oedd yn cyflwyno trosolwg o'r broses arfaethedig ar gyfer comisiynu elfennau gofal plant rhaglenni Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg i Aelodau. Yn ystod y cyflwyniad, pwysleisiodd y swyddog bod y rhaglenni hyn wedi cael llwyddiant blaenorol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n eang gan deuluoedd, ysgolion a budd-ddeiliaid eraill. Esboniodd, fel rhan o waith y Cyngor i drechu tlodi, cafodd y rhaglenni hyn eu hadolygu gyda'r bwriad o gael yr effaith mwyaf posib i leihau tlodi ac amddifadedd yn Sir Ddinbych.

Fel rhan o'r cynnig gofal plant i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2019, mae Addysg Blynyddoedd Gynnar yn darparu 10 awr o'r cynnig 30 awr. Mae'r ddarpariaeth hon y rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng 3 a 7 mlwydd oed yng Nghymru. Mae'n rhwymedigaeth statudol i'r ALl gynnig y ddarpariaeth ond nid yw'n ofynnol i rieni a gofalwyr ddefnyddio'r cynnig. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn noddi 10 awr o addysg yr wythnos i bob plentyn i hyd at ddau dymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Gall y cynnig hwn o addysg ei ddarparu mewn amryw leoliad gofal plant h.y. ysgol, cylch chwarae neu feithrinfa ddydd preifat. I fod yn gymwys i wneud cais ar gyfer y nawdd, roedd yn ofynnol bod y lleoliad gofal plant yn cydymffurfio gyda'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen, gan ddarparu'r amgylchedd priodol a hyfforddi staff i gyflwyno'r fframwaith. Mae pob plentyn yn y sir wedi gallu cael mynediad at Addysg y Blynyddoedd Cynnar ers cyflwyniad y fframwaith Cyfnod Sylfaen yn 2009. Mae'r cynnig gofal plant yn anelu i wella cefnogaeth i rieni sy'n gweithio a darparu'r ddarpariaeth gofal plant am 20 awr ychwanegol am ddim (yn amodol ar y cap enillion). Roedd prosiect Dechrau'n Deg, ar y llaw arall, yn rhaglen a noddwyd gan LlC yn benodol ar gyfer plant dan 4 oed ac yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae hyn yn cynnwys Sir Ddinbych, ac mae ardaloedd y Rhyl, Prestatyn a Dinbych yn rhan ohono. Yn Sir Ddinbych roedd Rhaglen Dechrau'n Deg yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau Cymorth Cynnar a'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Yn ogystal â gofal plant, mae Dechrau'n Deg yn darparu rhaglenni rhianta, cymorth gydag iaith a lleferydd â gwasanaeth ymwelydd uwch. Roedd y rhaglen Dechrau'n Deg yn noddi dwy awr a hanner o ofal plant y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 2 oed, nes y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Roedd lleoliadau Gofal Plant sy'n gymwys i dderbyn y nawdd yn cael cymorth Athro Ymgynghorol a Chynorthwywyr Addysgu Dechrau'n Deg.

O ystyried y trefniadau presennol, Canllaw LlC a'i Blaenoriaethau Corfforaethol ei hun, roedd y Cyngor wedi adolygu eu mecanweithiau noddi ar gyfer gwasanaethau Addysg y Blynyddoedd Cynnar a dechrau'n Deg. O ganlyniad, roeddent yn cynnig ail gomisiynu'r ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar a'r rhaglen Dechrau'n Deg ar y sail o sicrhau:

- gwasanaethau gofal o ansawdd da i blant
- dewis i rieni a theuluoedd
- mynediad agored a theg i gyllid a
- gwerth am arian

Cytunwyd ar ddull ar y cyd rhwng Dechrau'n Deg ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar, a fyddai'n arwain at ail gomisiynu'r gwasanaethau gofal plant drwy ddwy

broses ar wahân ond paralel, gyda phob gwasanaeth yn cael eu hail gomisiynu yn ystod 2019. Byddai cytundebau newydd ar waith erbyn mis Medi 2019, i gyd-fynd gyda'r flwyddyn ysgol a lleihau amhariad posib i blant.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau i'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ymatebodd y Swyddog Datblygu a Strategol, y Rheolwr Perfformiad a Busnes ac Arweinydd Addysg Dechrau'n Deg:

- cael eu cynghori eu bod wedi cael eu hannog gan nifer o ddarparwyr newydd a gofrestrodd diddordeb i fod yn ddarparwr Gofal plant Addysg y Blynyddoedd Cynnar;
- cadarnhau bod yr awdurdod lleol wedi bod yn gyfrifol am osod y cynllun gofal plant am ddim yn y sir, ond byddai unrhyw newidiadau gofynnol yn cael eu noddi gan LlC;
- cael eu cynghori bod angen i'r awdurdod lleol barhau i noddi'r gofal plant Addysg y Blynyddoedd Cynnar 10 awr o'i gyllideb Addysg gyda'r 20 awr yn weddill yn cael ei noddi gan LlC;
- cadarnhau bod gan yr awdurdod lleol 12 ysgol yn darparu'r elfen Addysg y Blynyddoedd Cynnar fel rhan hanfodol o'i ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen. Ymhob achos, roedd y nawdd ar gyfer y ddarpariaeth yn cael ei ddirprwyo i gyllideb yr ysgol;
- cael eu cynghori bod Canllaw LlC yn eithaf penodol o ran y dylid darparu'r ddarpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar drwy gymysgedd o ddarparwyr preifat a darpariaeth Cyfnod Sylfaen awdurdod lleol;
- cael eu cynghori bod rhai darparwyr yn cynnig y ddarpariaeth addysg statudol 10 awr yn unig. Roedd rhai teuluoedd eisiau cael mynediad at y ddarpariaeth 10 awr yn unig, ac nid oedd arnynt angen y ddarpariaeth 20 awr ychwanegol oedd ar gael;
- sicrhau'r Pwyllgor bod y ddau gynllun wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers sawl blwyddyn. Os oedd plentyn yn symud lleoliad gofal plant, byddai'r nawdd yn dilyn y plentyn i'w lleoliad gofal plant newydd. Disgwyliwyd y byddai cyflwyniad y cynnig gofal plant am ddim i bob plentyn cymwys yn cynyddu;
- cafwyd eu cynghori bod cynlluniau peilot cynnar yn dangos bod rhieni a ddefnyddiodd lleoliad gofal plant i ddarparu'r elfen Addysg y Blynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen 10 awr ond nid i ddarparu'r gofal plant 20 awr ychwanegol yn annhebygol i ddefnyddio'r ail ac eithrio os oedd lleoliad gofal plant yn newid eu cofrestriad i ddarparu'r ddwy elfen. Roedd sawl rheswm am hyn, h.y. lleoliad y ddarpariaeth, cefnogaeth teulu estynedig, enillion rhieni ac ati. Er mwyn newid eu cofrestriad mewn pryd i pan roedd y cynllun gofal plant am ddim yn dechrau, roedd y lleoliad gofal plant yn fwy rhagweithiol i gofrestru i ddarparu'r ddwy elfen. Roedd Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor yn darparu cefnogaeth i ddarparwyr a rhieni o ran cofrestru fel darparwr a chael mynediad at y cynllun;
- cafwyd eu cynghori, mewn ymgais i leihau'r perygl o unrhyw amhariad i ddarpariaeth y gwasanaeth, ac i rieni a phlant, a achoswyd gan y newidiadau, roedd y broses ymgeisio wedi cael ei ail ddylunio ar sail adborth a gafwyd yn y digwyddiadau budd-ddeiliad a gynhaliwyd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu proses gofrestru i gyd-fynd â phrosesau comisiynu blaenorol ac oedi dyddiad cychwyn y broses ymgeisio er mwyn i leoliadau gofrestru ar gyfer y cynnig gofal plant am ddim;

- cadarnhawyd bod yr elfen Addysg y Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen 10 awr ar gael am ddim i bob plentyn dros 3 mlwydd oed, nes eu bod yn derbyn addysg statudol llawn amser. Roedd y gofal plant 20 awr ychwanegol am ddim ar gael i blant gyda'u rhieni'n gweithio a'u henillion o dan drothwy penodol;
- cafwyd eu cynghori bod y Cynllun Dechrau'n Deg yn noddi prosiectau penodol yn wardiau cyngor mwyaf difreintiedig y sir, yn Ninbych ac y Rhyl, ar gyfer plant 2 mlwydd oed nes roeddent yn 4 mlwydd oed neu'n mynd i'r ysgol. Ar hyn o bryd, aeth mwy na 200 o blant o fewn y grŵp oedran i brosiectau a noddwyd gan Dechrau'n Deg yn y sir. Roedd prosiectau Dechrau'n Deg yn strwythurol iawn, ac yn canolbwyntio ar wella a chynyddu nifer y sgiliau sylfaenol h.y. sgiliau mathemategol, cymdeithasol, rhianta, datblygiad lleferydd ac iaith ac ati, gyda'r nod o wella canlyniadau'r teulu cyfan, gan roi sylfaen gadarn i'r plentyn adeiladu arni yn ystod cyfnod eu haddysg statudol.
- cafwyd eu cynghori nad oedd yn hysbys a fyddai cyflwyno'r cynnig gofal plant am ddim yn cael effaith negyddol ar brosiectau Dechrau'n Deg ai peidio. Serch hynny, nid oedd swyddogion yn disgwyl unrhyw effaith sylweddol gan mai prosiectau Dechrau'n Deg yw'r prif wasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a theuluoedd gyda rhieni ddim mewn cyflogaeth, neu'n gweithio ychydig oriau'r wythnos yn unig, lle anelir y cynnig gofal plant at deuluoedd gyda'r rhieni'n gweithio 16 yr wythnos o leiaf. Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan ardaloedd oedd wedi rhoi'r cynllun peilot newydd ar waith yn dangos effaith bach iawn ar y cynllun Dechrau'n Deg;
- cafwyd trosolwg o'r broses monitro a rhoddwyd ar waith i werthuso effeithiolrwydd y prosiectau Dechrau'n Deg yn lleol a'r system meincnodi Cymru gyfan ar gyfer y Cynllun;
- cafwyd eu cynghori bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Deddf Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cyflwyno gofyniad i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc o'u geni hyd at 25 mlwydd oed gydag anghenion dysgu ychwanegol (ALN). Roedd gan Sir Ddinbych dîm anghenion dysgu ychwanegol rhagweithiol a wnaeth pob ymdrech i nodi unrhyw angen dysgu ychwanegol cyn gynted â phosib yn ystod addysg plentyn er mwyn asesu, cynllunio a hwyluso ymyraethau a chefnogaeth amserol ac effeithiol. Roedd y Tîm anghenion dysgu ychwanegol yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd gyda'r bwriad i sicrhau'r llwybr gorau ar gyfer pob plentyn, os yw'n ardal Dechrau'n Deg yn y sir neu mewn ardaloedd eraill. Roedd nifer uwch o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn ardaloedd mwy difreintiedig Sir Ddinbych yng ngogledd y Sir oherwydd niferoedd poblogaeth uwch. Mae'r dwysedd poblogaeth hwn wedi golygu bod gofyniad am lefel uwch o gefnogaeth, gan gynnwys cefnogaeth amlasiantaeth. Oherwydd hynny, dyna oedd y rheswm dargedodd LlC adnoddau ariannol ychwanegol ar ffurf nawdd Dechrau'n Deg ar gyfer yr ardaloedd hyn. Serch hynny, byddai plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn rhannau eraill o'r sir yn derbyn yr un lefel o gefnogaeth ac ymyrraeth, ond mae nawdd ar eu cyfer yn cael ei ddarparu gan awdurdod lleol;
- cafwyd cadarnhad bod y Tîm y Blynyddoedd Cynnar wedi gweithio gyda sawl Cylch/Meithrin/Cylch chwarae'n gweithredu yn ardaloedd o'r Sir nad

ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac o ganlyniad roeddent yn gallu briffio ysgolion cynradd ar bob plentyn cyn eu cofrestriad yn eu hysgol ddewisedig. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd i'r ysgolion cynradd gan y Tîm yn rhoi gwybodaeth gynnar o allu/potensial bob plentyn a/neu gefnogaeth ac anghenion ychwanegol;

- cafwyd cadarnhad bod y Cyngor wedi derbyn nawdd Dechrau'n Deg ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar gan LlC ers nifer o flynyddoedd, ond gyda chyflwyniad 20 awr o ofal plant am ddim gan LlC i gyd-fynd â'r hawl 10 awr o Addysg y Blynyddoedd Cynnar oedd eisoes ar gael, bu penderfyniad, gyda'r bwriad o brofi gwerth am arian a gwneud y mwyaf o fuddion cynlluniau ar gyfer plant a rhieni, i ehangu'r mynediad at y cynlluniau yn unol â'r Canllaw addysg statudol y blynyddoedd cynnar (2018) a meini prawf grant y Cyfnod Sylfaen drwy broses ymgeisio paralel ac ar y cyd, a phroses comisiynu os oes angen. Byddai'r dull hwn yn galluogi i'r ddogfennaeth gael ei alinio a'i rhannu pan fo'n bosib. Byddai'n symleiddio'r broses ar gyfer rhieni a darparwyr;

- cafwyd eu cynghori, tra na fyddai pob rhiant yn defnyddio'r gwasanaethau gofal plant 20 awr, amcan cynnig LlC oedd annog rhieni i weithio mwy nag 16 awr yr wythnos;

- cafwyd eu cynghori bod Adroddiad Arolygu diweddar Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg yn Sir Ddinbych wedi cyfeirio'n gadarnhaol ar ddull yr Awdurdod o gefnogi'r ddarpariaeth addysg ar gyfer plant 3 a 4 mlwydd oed yn y sir;

- cafwyd cadarnhad bod y Cyngor yn bwriadu comisiynu ystod eang o ddarparwyr ar gyfer y Cynllun Dechrau'n Deg h.y. sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector/sefydliadau dielw i ddarparu'r Cynllun yn wardiau mwyaf difreintiedig y sir, gan fod plant ifanc yn ffynnu mewn amgylcheddau dysgu a chymdeithasol gwahanol, ni fyddai'r un math o ddarpariaeth yn gweddu pob plentyn;

- cafwyd eu cynghori nad oedd darparwyr sector cyhoeddus wedi cael triniaeth ffafraethol dros ddarparwyr preifat yng nghontract y broses ymgeisio. Byddai disgwyl i bob darparwr gwblhau'r un ddogfennaeth wrth wneud cais am nawdd. Cyfrifoldeb pob darparwr unigol oedd amcangyfrif eu costau staffio a llety fel rhan o'u prosesau cynllunio busnes. Roedd yn siomedig fodd bynnag, nad oedd rhai busnesau annibynnol yn gallu darparu'r gwasanaethau roedd y Cyngor yn dymuno eu cyflenwi. Roedd gan y Cyngor 12 ysgol oedd yn darparu'r ddarpariaeth gofal plant Addysg y Blynyddoedd Cynnar, ac roedd y rhan fwyaf wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig lle nad oedd darpariaeth breifat ar gael, maent wedi comisiynu darpariaeth o 38 o ddarparwyr nad ydynt yn perthyn i'r awdurdod lleol hefyd. Yn ychwanegol at hynny, daeth y ddeddfwriaeth newydd i rym a fyddai'n caniatáu darparwyr preifat i hawlio hyd at £12,000 mewn rhyddhad ardrethi busnes; a

- chafwyd cadarnhad ni fyddai 'gwiriadau credyd' yn cael eu cynnal ar ymgeiswyr sy'n dangos diddordeb mewn darparu'r gwasanaethau gan mai'r broses ffafriedig oedd proses ymgeisio yn hytrach na phroses dendro.

Oherwydd bod nifer o aelodau wedi gofyn a oedd darparwyr y sector cyhoeddus mewn safle mwy ffafriol wrth ymgeisio ar gyfer nawdd darpariaeth Dechrau'n Deg a/neu Addysg y Blynyddoedd Cynnar, gwnaeth y Pwyllgor gais bod adroddiad gwybodaeth yn cael ei roi i aelodau'r Pwyllgor ar y broses i'w dilyn.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***__Penderfynwyd:__*** *yn amodol ar y sylwadau uchod;*

***(i)*** *mae darpariaeth Adroddiad Wybodaeth sy'n amlinellu'r broses i'w dilyn gan ddarparwyr posib wrth wneud cais am nawdd Addysg y Blynyddoedd Cynnar a/neu ddarpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg a'r diogelu o fewn y broses i sicrhau bod pob ymgeisydd, os ydynt yn sefydliadau cyhoeddus/preifat/y sector gwirfoddol, yn cael mynediad teg a chyfiawn i'r nawdd ac i liniaru yn erbyn darparwyr sector cyhoeddus i fod mewn safle manteisiol;*

***(ii)*** *cefnogi penderfyniad i ail gomisiynu elfennau gofal plant Rhaglenni Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg drwy brosesau paralel, ffurfiol*

Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

Bu i'r cyfarfod ailymgynnull am 11:30 am. Ail ymunodd y Cynghorydd Tina Jones gyda'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

## 6 PERFFORMIAD AC EFFEITHIOLRWYDD CYDYMFFURFEDD CYNLLUNIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o effeithiolrwydd a pherfformiad swyddogaeth cydymffurfedd cynllunio'r Cyngor. Yn ei gyflwyniad, fe bwysleisiodd mai pwrpas y gyfundrefn gynllunio oedd rheoleiddio datblygiad a defnyddio'r tir er budd y cyhoedd. Felly roedd hi'n bwysig bod gan awdurdodau cynllunio lleol swyddogaeth cydymffurfedd effeithiol oedd yn gallu ymchwilio'n amserol i honiadau honedig o dorri rheolau, a defnyddio polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol i unioni effeithiau niweidiol datblygiadau anawdurdodedig. Er mwyn i'r gwasanaeth cydymffurfedd wella'n barhaol a pherfformio'n well, byddai angen i arferion gweithio gael eu mireinio a byddai angen cryfhau cydweithio gyda budd-ddeiliaid eraill, er gwaethaf toriadau i gyllideb llywodraeth leol.

Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Datblygu (Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) amlinelliad i'r Pwyllgor o waith y Gwasanaeth Cydymffurfedd o ddydd i ddydd, ei berfformiad cyffredinol a throsolwg o sut roedd dangosyddion perfformiad yn esblygu'n genedlaethol. Fe wnaethant dynnu sylw at yr angen wrth symud ymlaen am fabwysiadu dull cyson ar y cyd â budd-ddeiliaid lleol er mwyn parhau â gwaith monitro rhagweithiol a oedd yn darparu gwelliannau sylweddol, gan mai dim ond un Swyddog Cydymffurfiaeth Cynllunio penodol oedd yn ymchwilio i achosion honedig o dorri rheolau oedd gan y Gwasanaeth. Ar gyfartaledd, roedd y swyddog hwn yn ymchwilio i tua 240 o gwynion y flwyddyn. Yn sgil diffyg adnoddau i allu ymchwilio i achosion honedig o

dorri rheolau, roedd angen blaenoriaethu achosion ar sail maint y niwed, felly ar y cyfan byddai achosion honedig o dorri rheolau oedd yn effeithio ar adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol y Sir, coed gwarchodedig yn ogystal â'r rhai oedd yn  groes i flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Sir, yn cael blaenoriaeth dros achosion honedig eraill o dorri rheolau. Roedd Swyddog Prosiect Cydymffurfedd Cynllunio rhan-amser dros dro wedi cael ei benodi'n ddiweddar gyda'r bwriad o sicrhau bod Prif Gynllun Canol Tref y Rhyl yn cael ei gyflawni trwy fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r nifer helaeth presennol o reolau cynllunio oedd yn cael eu torri yn y dref. Rhagwelir y byddai mabwysiadu'r dull yma'n rhoi hwb i'r ymdrechion i adfywio canol y dref a lleihau lefelau amddifadedd yn yr ardal. Roedd y Swyddog Prosiect yn awyddus fel rhan o'r rhaglen Ardal Gwella Busnes, i weithio gyda busnesau lleol yn y dref i dynnu eu sylw at eu rôl wrth sicrhau bod pob busnes yn cydymffurfio â gofynion cynllunio a'u bod yn ymwneud â'r gwaith gwella amgylcheddol i wella ymddangosiad cyffredinol y dref.

Roedd y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill y Cyngor, e.e. Trwyddedu, Gwasanaethau Tai, Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill e.e. Yr Heddlu, a'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â materion o beidio â chydymffurfio, gan fod ymchwiliadau i un achos honedig o dorri rheolau fel arfer yn dod â materion eraill o beidio â chydymffurfio i'r amlwg. Felly fe allai pob gwasanaeth gefnogi ac ategu ymdrechion ei gilydd mewn cysylltiad â pheidio â chydymffurfio ac unrhyw waith unioni/trwsio cysylltiedig. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda phob gwasanaeth ac asiantaeth, a mabwysiadu dull rhagweithiol yn hytrach nac ymatebol i waith cydymffurfedd, yn golygu'r posibilrwydd o sicrhau elw ariannol ac amgylcheddol i'r Cyngor ac i breswylwyr o fewn y lefelau ariannol ac adnoddau dynol presennol. Dull posibl arall o wella'r dull rhagweithiol fyddai drwy lunio siarter rhwng y Cyngor Sir a chynghorau dinas, tref a chymuned y Sir, gan geisio eu caniatâd i roi gwybod i Wasanaeth Cydymffurfedd Cynllunio'r Cyngor am unrhyw achosion posibl o dorri rheolau cynllunio neu faterion o bryder o fewn eu cymunedau cyn gynted ag roeddynt yn cael gwybod amdanynt.  Petai modd llunio siarter o'r fath a bod yr holl gynghorau'n cytuno i'w fabwysiadu, roedd posibilrwydd y gallai weithredu fel 'system rhybuddio cynnar' i Wasanaeth Cydymffurfedd Cynllunio'r Cyngor Sir, gan alluogi iddo ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r unigolion/busnesau/sefydliadau a oedd mewn perygl o dorri amodau cynllunio yn ystod y camau cynnar, gyda'r bwriad o unioni unrhyw doriadau a'u hatal rhag gwaethygu i faterion costus o beidio â chydymffurfio a phroses gorfodaeth hirfaith.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Aelod Arweiniol, Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Swyddog Cydymffurfedd Cynllunio:

- ddweud nad oedd y nifer o achosion honedig o dorri rheolau cynllunio yn cynyddu'n sylweddol. Serch hynny, os oedd angen ymchwiliad manwl i'r achosion neu eu bod yn ymwneud â thoriadau cymhleth, byddai angen cryn amser i'w datrys, a chydag adnoddau cyfyngedig, roedd hyn yn golygu nad oedd achosion eraill yn cael eu hymchwilio. Felly'r rheswm pam y byddai dull rhagweithiol a cheisio cydweithrediad traws-wasanaethol a rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol yw y gallai alluogi'r

Gwasanaeth Cydymffurfedd Cynllunio i ymgysylltu â’r rhai oedd mewn perygl o dorri amodau yn gynt, ac argymell unrhyw gamau unioni angenrheidiol. Ar y cyfan, roedd y dull 'meddal’ yma tuag at orfodaeth yn well i bawb;

- cadarnhau bod y Gwasanaeth Cydymffurfedd Cynllunio yn gweithio’n agos gyda Gwasanaeth Rheoli Adeiladu'r Cyngor. Roedd y ddau wasanaeth wedi’u cyd-leoli, yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, ac yn dibynnu’n drwm ar wybodaeth eu gilydd;
- dweud bod swyddogion wrthi’n edrych ar y ffioedd oedd yn gysylltiedig â chyngor cynllunio a cheisiadau gan fod costau gweithredu’r Gwasanaeth yn fwy nag unrhyw incwm a dderbynnir o ffioedd a thâl. Y rheswm cyffredinol am golli’r incwm yma oedd gostyngiad mewn ceisiadau cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf;
- cadarnhau mai’r data cymharol ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) oedd y data perfformiad oedd wedi’i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad;
- dweud bod angen mwy o waith ymyrraeth ragweithiol mewn ardaloedd penodol o'r sir nag mewn ardaloedd eraill. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, lle mae dyheadau a chanfyddiadau preswylwyr lleol o’u hamgylchedd lleol yn dueddol o fod yn is na phobl mewn ardaloedd mwy cefnog. Dyna’r rheswm dros benderfynu canolbwyntio ar Ganol Tref y Rhyl gyda’r bwriad o roi hwb i'r gwaith adfywio yn yr ardal trwy dargedu adeiladau hanesyddol pwysig i sicrhau nad ydynt yn cael eu colli am byth. Yn nhrefi a phentrefi mwy cefnog y sir, roedd preswylwyr yn llawer mwy tebygol o godi pryderon yn fuan gyda'r Cyngor am adeiladau hyll, cyn iddynt ddirywio ymhellach, fel y gwelir yn yr enghraifft yn Atodiad 1 yr adroddiad;
- cadarnhau bod y Dangosyddion Perfformiad cyfredol oedd yn gysylltiedig â’r nifer o hysbysiadau gorfodaeth a roddwyd ac a gydymffurfiwyd â nhw, wedi’u hanelu ar hyn o bryd tuag at gofnodi’r nifer o ymchwiliadau a gwblhawyd gyda datrysiad ffurfiol. Fodd bynnag, roedd hyn ar fin newid gan fod llythyr agored diweddar gan LlC i Brif Swyddogion Cynllunio wedi dynodi na fyddai “camau gorfodi ffurfiol” bellach yn cael eu hystyried yn ddewis olaf ac na fyddai datrys achosion o dorri rheolau bellach yn cael ei fonitro'n llawn. Roedd gan awdurdodau cynllunio lleol bellach hawl i benderfynu pryd roedd ymchwiliad wedi cael ei gwblhau ac wedi cyrraedd datrysiad, gallai fod ar unrhyw adeg pan fyddai canlyniad ‘cadarnhaol’ wedi cael ei gyflawni;
- dweud tra byddai cyflogi staff ychwanegol i ymgymryd â gwaith Cydymffurfedd Cynllunio yn fanteisiol mewn byd delfrydol, roedd cyfyngiadau cyllidebol presennol y gwasanaethau cyhoeddus yn golygu nad oedd hyn yn ddewis hyfyw oni bai bod Gwasanaeth arall yn cael ei thorri neu ei thynnu nôl i dalu am gost staff ychwanegol;
- dweud y byddai’n ddoeth yn y dyfodol i’r gwasanaeth ofyn bod honiadau o dorri amodau cynllunio yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth, e.e. lluniau ac ati cyn i’r ymchwiliad gael ei ddechrau gan y dylai hyn helpu i gyflymu’r gwaith ymchwilio;
- amlinellu i ba raddau y gallai Siarter Cydymffurfio Cynllunio gael ei lunio rhwng y Cyngor Sir a’r cynghorau dinas, tref a chymuned lleol. O bosib, fe allai’r Siarter roi pwerau i gynghorau i ymgymryd ag ymchwiliadau

cychwynnol mewn i achosion honedig o dorri materion cynllunio, hyfforddi ac addysgu swyddogion i wneud y gwaith yma ac ati;
- cadarnhau bod Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a deddfwriaeth ategol eraill yn rhoi pwerau a dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â gwaith cydymffurfedd cynllunio;
- bod rôl swyddogaeth Cydymffurfedd Cynllunio i gefnogi gwaith y Cyngor i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol yn ymwneud yn benodol â blaenoriaethau corfforaethol tai, yr amgylchedd a chymunedau gwydn; a
- dweud bod newid y Cynllun Dirprwyo i ganiatáu swyddogion i roi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio heb orfod cael caniatâd y Pwyllgor Cynllunio yn gyntaf wedi bod yn effeithiol. Er nad oedd cyflwyno hysbysiad o dorri rheolau ynddo'i hun yn datrys y mater yn syth, roedd yn sbardun ar gyfer deialog rhwng perchennog/rheolwr yr eiddo a allai arwain at ddatrysiad boddhaol maes o law.

Cytunodd aelodau'r pwyllgor bod diwygio'r Cynllun Dirprwyo wedi helpu i symleiddio'r broses a chyflymu datrysiadau ar gyfer materion o ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, roeddynt yn teimlo nad oedd aelodau bellach yn cael gwybod am gynnydd mewn cysylltiad â materion o ddiffyg cydymffurfio o fewn eu wardiau. Er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am gynnydd gyda materion o ddiffyg cydymffurfio, cytunodd y Rheolwr Datblygu i roi adroddiad cynnydd i'r cynghorwyr bob chwe mis.
Canmolodd y cynghorwyr oedd yn cynrychioli'r Rhyl y gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cydymffurfedd Cynllunio mewn cysylltiad â materion o ddiffyg cydymffurfio yng nghanol tref y Rhyl, ac roeddynt yn cefnogi'r dull arfaethedig yn y dyfodol er mwyn ceisio cyflymu adfywiad y dref.

Ar ddiwedd y drafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u> -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod*

*(i) derbyn yr adroddiad ar berfformiad ac effeithiolrwydd y swyddogaeth Cydymffurfedd Cynllunio;*
*(ii) cydnabod gwerth a phwysigrwydd y Gwasanaeth i'r sir a'i phreswylwyr ac argymell y gwneir pob ymdrech i amddiffyn y swyddogaeth tra'n gosod cyllidebau'r cyngor yn y dyfodol;*
*(iii) bod Siarter Cydymffurfedd Cynllunio yn cael ei llunio rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'i chynghorau sir, tref a chymuned er mwyn cefnogi gwaith cydymffurfedd trwy waith atal ac ymyrryd yn fuan; a*
*(iv) bod y Siarter drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn ymgynghori cyn cael ei roi i gynghorau dinas, tref a chymuned er mwyn ymgynghori.*

## 7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Datganodd y Cadeirydd y siom yr oedd yr aelodau'n ei deimlo yn dilyn cyflwyniad sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet ar ôl iddo alw i mewn benderfyniadau perthnasol i'r Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr arfaethedig. Er bod yr aelodau'n cydnabod fod sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor wedi'u cyflwyno i'r Cabinet yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Galw i Mewn, roeddent yn teimlo nad oedd y Cabinet, drwy gadarnhau eu penderfyniadau gwreiddiol yn syth ar ddiwedd y ddadl, wedi rhoi'r ystyriaeth ddyledus i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Er mwyn rhoi sylw i'r pryderon a fynegwyd a chael diweddariad pellach gan yr Aelod Arweiniol dros Dai Rheoleiddio a'r Amgylchedd, cytunwyd:

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.***

Trafododd yr aelodau'r broses oedd wedi digwydd hyd yma. Dywedwyd fod swyddogion wedi dechrau rhannu'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ddosbarthiadau a'u bod yn gweithio i'w dadansoddi. Cadarnhawyd fod swyddogion ychwanegol wedi'u dethol i roi sylw i'r llwyth gwaith. Ar ddiwedd y dadansoddiad byddai adroddiad yn mynd gerbron y Cabinet.

Trafododd yr aelodau eu pryderon ynghylch cyfraddau amser a'r cyllid arfaethedig gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor bod adroddiad yn dadansoddi'r adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cyn-cynllunio yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor ar gyfer craffu cyn-penderfynu cyn i'r adroddiad fynd i'r Cabinet. Roedd aelodau o'r farn y byddai mabwysiadu'r ymdriniaeth hon yn fanteisiol i'r holl fudd-ddeiliaid.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- yng ngoleuni penderfyniad diweddar Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, nid oes angen cadw'r eitem ar Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd ar raglen waith y Pwyllgor ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Am y rheswm hwnnw gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar y mater a'i oblygiadau ar gyfer ysgol bartner wedi'i ffedereiddio.
- cytunwyd y dylid gwahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i'r cyfarfod nesaf.
- adroddiad ar y safle Sipsiwn a Theithwyr arfaethedig i'w ychwanegu at raglen gwaith i'r dyfodol Pwyllgor mis Ionawr.
- cytunwyd y dylid symud yr adroddiad ar gau Ysgol y Rhewl ymlaen i raglen cyfarfod mis Mawrth y Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- tynnwyd sylw at y ffaith fod cyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar gyfer 21 Chwefror 2019 i drafod materion yn deillio o'r tân ar Fynydd Llantysilio.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y mae yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Adroddodd gynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn:

Roedd y Cynghorydd Huw Williams wedi mynychu'r Her Perfformiad Gwasanaeth ar ran Grŵp Her y Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Cadarnhaodd y Cynghorydd fod y cyfarfod yn un cadarnhaol a buddiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:00 p.m.**